MAE POBL LÂN YN ANRHYDEDDU JEHOFAH

Nodyn i'r siaradwr:
'Rydym yn anrhydeddu Jehofah drwy lendid corfforol, gwisg a thrwsiad sy'n esiampl rhagorol. 'Fedrwn ni ddim bod yn lân yng ngolwg Jehofah os cymdeithaswn â phobl sy'n foesol ac ysbrydol aflan

MAE CYSYLLTIAD RHWNG GLENDID A DERBYNIOLDEB YSBRYDOL (7 mun.)

Duw sanctaidd yw Jehofah (*it*-1 1127 ¶17)

Caiff ei halogi gan aflendid, boed ysbrydol neu gorfforol (Eseia 1:16)

'Roedd yn rhaid i'r Israeliaid ymolchi a golchi'u dillad ar gyfer y cynulliad arswydus ym Mynydd Sinai (Ex 19:10, 11)

'Roedd yn rhaid i Aaron a'i feibion ymolchi â dŵr o noe bres cyn gwasanaethu ym mhabell y cyfarfod (Ex 29:4; 30:18, 19)

'Roedd Duw sanctaidd yn gofyn glendid yng ngwersyll yr Israeliaid (Deut 23:10-14; *g*81 5/8 14; *g*71 4/22 28)

'Doedd difaterwch ynglŷn â'r anrhydedd oedd yn ddyledus i Jehofah ddim yn cael ei oddef

'Roedd y glendid y gofynnai'r Ddeddf amdano yn sail i hapusrwydd

'Doedd dim rhaid i bobl Dduw ystyried ei ofynion ynglŷn â glendid fel rhywbeth anodd, beichus, gormesol

Drwy i bawb wneud ymdrech resymol, byddai'r bobl yn gallu byw mewn amgylchedd mwy dymunol

Gallent ymfodloni bod yn bobl iachach, oedd yn llai tebygol o gael eu taro gan heintiau neu salwch aml

'Roedd i Dduw ddarparu'r fath arweiniad yn eu helpu i weld ei fod yn fawr ei ofal amdanynt a'u bod nhw'n arbennig iddo (Deut 33:29; Salmau 33:12-14; Eseia 48:17)

FE DDYLAI'N HOLL DDULL BYW ANRHYDEDDU JEHOFAH (8 mun.)

Yn union fel y cynrychiolai gwersyll yr Israeliaid eu dull o fyw yn gyfan, felly hefyd rhaid cadw'n dull ni o fyw yn lân, 'rhag iddo ef (Jehofah) weld dim anweddus ynom' (*it*-1 398 ¶2)

Dylai destlusrwydd a threfnusrwydd ein cartrefi, y tu mewn a'r tu allan, dystiolaethu i gymdogion ein bod yn addoli'r Duw pur (*w*89 6/1 16-18)

Pa fath o dystiolaeth o honni addoli Duw sancteiddrwydd a roddid gan ardd aflêr, gwastraff yn pentyrru, cartref anniben, a char blêr?

Mae'n bwysig hefyd fod y bobl mae'n rhaid inni ymwneud â hwy yn y gwaith neu yn yr ysgol yn dod i'n 'nabod ni fel unigolion glân eu llafar a glân eu byw sy'n dangos parch i Dduw a chymydog drwy gyfrwng ein hagwedd a'n gwisg (*g*86 12/22 23-4; *w*89 6/15 15; *w*87 8/15 13 ¶15)

Gallant weld fod gwasanaethu Duw yn ôl ei ffordd e yn ein helpu i fod yn bobl hapusach, mwy iach, a mwy bodlon

DYLID AGOSÁU AT Y DUW PUR AG OFN A PHARCH DUWIOL (7 mun.)

Dylem ymboeni wrth wasanaethu Jehofah, yn ei gynrychioli yn y gwasanaeth maes neu ar y llwyfan (*w*89 6/1 19-20)

Pan ofynnir inni ymddangos o flaen swyddog amlwg, llywodraethwr, neu gyflogwr, sut olwg sydd arnom? Blêr, yn ddihid o'n hagwedd neu drwsiad, neu gyda'r bwriad o roi'r argraff orau? (Mal 1:8b)

Dylai'n holl agwedd ac ymddangosiad arddangos gwir ofn a pharch duwiol (*km* 10/80 3)

Sarhad ar Jehofah fyddai unrhyw beth na chyrhaeddai'r safon hon (*w*87 11/1 17 ¶6; *w*88 8/15 17)

Gwrthododd y Brenin Dafydd fwyta, ymolchi, na gofalu am ei ymddangosiad oherwydd tristwch ac edifeirwch wrth i'w fab wynebu marw, ond pan ddaeth yn amser iddo addoli Jehofah, ymolchodd ac ymddangos yn dderbyniol weddus (2Sam 12:20)

Wrth ymgynnull i addoli, dylem ni hefyd, addolwyr Cristnogol ofalu am ein trwsiad a'n gwisg, nid i fodloni mympwy neu gysur, ond i foddhau Duw a'n gwahoddodd ni i ymgynnull, a'n cyd addolwyr

Nid achlysur hamdden na phleserdaith gyffredin yw ymgynnull i addoli

Os oes parch dyladwy gennym at y gynulleidfa hapus, fendigaid, ni fydd angen rheolau gosodedig arnom ynglŷn â'r hyn y cawn neu na chawn ei wisgo

Byddwn wrth ein bodd yn adlewyrchu drwy'n hymddangosiad y gwerthfawrogwn wir addoliad

RHAID I FODDHAU DUW DDOD O FLAEN PLESIO BYDOLDDYNION DI-DDUW (8 mun.)

Mae lluoedd yn pendilio ôl a blaen gan gydymffurfio â phob chwiw a ffasiwn (*yp* 91-4; *g*89 10/8 11)

Mae pobl yn addoli ac efelychu bydolddynion amlwg, ym meysydd chwaraeon, adloniant, masnach, a chymdeithas

Rhoddir mwy o amser a meddwl i gydymffurfio â ffyrdd y drefn bresennol sydd ohoni nag i drawsffurfio eu meddyliau a'u moesau, rhywbeth hanfodol i ennill bywyd (Rhuf 12:1, 2)

Mae'n bwysig inni wrthod moesymgrymu i drefn di-dduw pethau na chael ein cysylltu â hi mewn unrhyw ffordd, nac â'i moesau, na'i chwiwiau diweddaraf

'Dydym ni ddim eisiau ein gwneud ein hunain yn bypedau ei masnach ffasiwn (*yp* 73-80)

Nid yw Jehofah yn eithafwr. 'Ddylem ninnau ddim bod chwaith yn unrhyw un o weithgareddau bywyd (1Tim 3:2)

'Does dim cyfeiriad yn y Beibl i Paul na'r apostolion eraill sefyll allan oherwydd dull arbennig o ffasiwn a dynnai sylw at eu gwisg neu drwsiad

CYMDEITHASWCH Â'R RHEINY SY'N LÂN (10 mun.)

Er mwyn sicrhau'r glendid y gofynna Jehofah amdano, rhaid gwylio â phwy y cymdeithaswn, gan ddewis dim ond y rhai fydd yn cefnogi'n penderfyniad i foddhau Duw (1Cor 15:33)

Peidiwch byth a chymdeithasu â dynion diwerth, rhagrithwyr, rhai drwg, y drygionus, rhai sydd â chamwri ar eu dwylo,

neu sy'n aflan eu lleferydd (Salmau 26:4, 5, 10; *w*85 11/15 20-1; *w*71 528)

'Dyw'r rhai sy'n dewis peidio gwrando na derbyn neges y newyddion da ddim yn gymdeithion derbyniol (*uw* 44-5)

Dylem ni, fel Dafydd, ymhyfrydu mewn cymdeithasu â thyrfa cynulleidfa caethweision teyrngar Jehofah (Salmau 26:12; *w*72 406-12)

Sylweddolodd Dafydd y gallai cymdeithasu drwg olygu colli ei fywyd gyda'r pechaduriaid (Salmau 26:9; *w*71 528)

Er nad yw'n brodyr a'n chwiorydd yn berffaith, maen' nhw'n gymdeithion gymaint mwy llesol na phobl yng nghyfundrefn Satan

DAW BENDITHION O DDULL O FYW GLÂN (5 mun.)

Bendithion 'nawr—

Gellir gwella ein hiechyd corfforol ag ymddygiad ac arferion glân (*g*88 9/22 8-11)

Gellir cynyddu hunan-barch o wybod na ellir gweld bai ar ein haddoli Duw (Dan 6:5)

Gallwn ennill bodlonrwydd o gyd-weddu ein gwasanaeth i Dduw glân â'n glendid personol (Eseia 52:11; *w*87 11/1 15-16, 20)

Bendithion y dyfodol—

Mae gennym yr addewid y bydd Duw yn ein cydnabod yn feibion a merched iddo (2Cor 6:18; 7:1)

Bydd yr eneiniog yn feibion nefol

Wedi i Dduw gyhoeddi'r eneiniog yn berffaith ac yn gymeradwy, bydd ei weision daearol yn medru dod yn feibion dynol perffaith i Dduw

Yna cawn berthynas dragwyddol â'r Un sydd yn gyfiawn ac union yn ei holl weithredoedd, gan gynnwys y rheiny yn ei drefn newydd (2Cor 6:17; 1In 3:3)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)